

Moderneiddio Addasrwydd i Weithio

Newidiadau i Reolau
Addasrwydd i Weithio 2004

Moderneiddio Addasrwydd i Weithio

Newidiadau i Reolau Addasrwydd i Weithio 2004

Cyflwyniad

- 1 Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth annibynnol Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Rydym yn bodoli er mwyn gwarchod y cyhoedd. Rydym yn gosod safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad fel y gall nyrsys a bydwagedd ddarparu gofal iechyd a safon uchel drwy gydol eu gyrfaedd.
- 2 Mae'n ein swyddogaethau wedi eu nodi yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (y Gorchymyn). Ategir y Gorchymyn gan gyfres o reolau sy'n nodi sut fyddwn yn cyflawni ein swyddogaethau. Rydym wedi gweithio gyda'r Adran Iechyd ar gynigion i wella effeithlonrwydd ein prosesau addasrwydd i weithio tra'n parhau i warchod y cyhoedd. Ar 21 Ebrill 2016 bu i'r [Adran ymgynghori](#) ar newidiadau i'r Gorchymyn. Byddai'r newidiadau hyn yn:
 - 2.1 Galluogi nyrsys neu fydwagedd i gytuno ar ymgymeriadau gyda ni
 - 2.2 Galluogi Archwilwyr Achosion i gau achosion drwy roi rhybudd neu gyngor
 - 2.3 Uno'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd a'r Pwyllgor Iechyd i ffurfio un Pwyllgor Addasrwydd i Weithio
 - 2.4 Cael gwared â'r cyfyngiad ar nifer y panelwyr y gallwn eu penodi er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd er mwyn recriwtio aelodau newydd o'r panel pan fo angen.
 - 2.5 Galluogi paneli sy'n gosod amodau gweithio a rhoi gorchmynion atal i ddweud nad oes angen adolygiad dilynol o'r gorchymyn
 - 2.6 Cael gwared â'n hymrwymiad statudol i gynnal gwrandawiadau ym mha bynnag wlad yn y DU y cofrestrwyd y nyrs neu'r fydwraig
 - 2.7 Amserlennu holl adolygiadau o orchmynion interim bob chwe mis
 - 2.8 Rhoi grym i lysoedd sy'n gwrandao ar geisiadau i ymestyn neu ddiddymu gorchmynion i ddisodli un math o orchmynion interim (amodau gwaith neu ataliad) â gorchymyn arall
 - 2.9 Diddymu ein gofynion statudol i hysbysu unigolion penodol pan atgyfeirir achos i bwyllgor gwaith

- 3 Nawr rydym yn gofyn am safbwyntiau ar y newidiadau i Reolau Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Weithio) 2004 fydd yn rhoi'r pwerau hyn ar waith. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ar y newidiadau i bwerau Archwilwyr Achosion i roi cyngor a rhybuddion ac argymhell ymgymeriadau. Rydym hefyd yn ceisio safbwyntiau ar ein dull o weithredu ein pŵer estynedig i adolygu penderfyniadau 'dim achos i'w ateb' sy'n gysylltiedig â chyngor, rhybuddion ac ymgymeriadau.
- 4 Nid yw'r newidiadau eraill yn golygu bod angen diwygiadau sylweddol i'r Rheolau Addasrwydd i Weithio, ac felly nid ydym yn ceisio safbwyntiau ar y newidiadau hyn yn yr ymgynghoriad hwn. Byddwn yn creu canllawiau er mwyn cynorthwyo Archwilwyr Achosion gyda'u pwerau newydd a'r newidiadau ehangach yr ymgynghorwyd arnynt gan yr Adran Iechyd, yn cynnwys y ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ar leoliad gwrandawiaid. Byddwn yn ymgynghori ar y canllawiau hyn a byddwn hefyd yn ceisio adborth ar ein hymagwedd tuag at achosion iechyd o dan y Pwyllgor Addasrwydd i Weithio newydd yn gynnar yn 2017.

Sicrhau bod addasrwydd i weithio yn fwy cymesur

- 5 Fel rhan o'n dyletswydd i warchod cleifion a'r cyhoedd rydym yn ymchwilio i bryderon ynglŷn ag ymddygiad neu waith nyrsys a bydwagedd sy'n gostwng yn is na'n safonau. Er mwyn ein galluogi i fodloni ein nod o warchod y cyhoedd, mae'n rhaid i'n prosesau addasrwydd i weithio fod yn effeithiol a chymesur. Ym mis Mawrth 2015 bu i ni gyflwyno Archwilwyr Achosion er mwyn gwella effeithlonrwydd ac ansawdd y broses o wneud penderfyniadau ar ddiwedd ymchwiliad i addasrwydd nyrs neu fydwaig i weithio. Nawr rydym yn ceisio newid deddfwriaethol er mwyn rhoi pwerau estynedig i Archwilwyr Achosion benderfynu ar achosion yn ogystal â'n proses wrandawiaid. Rydym yn credu y bydd y newidiadau hyn yn ein galluogi i warchod cleifion a'r cyhoedd yn well ac yn gyflymach. Bydd y newidiadau yma hefyd yn fras yn ein halinio â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill sydd eisoes yn gweithredu modelau addasrwydd i weithio mwy cymesur.
- 6 Mae Archwilwyr Achosion yn adolygu'r dystiolaeth o'n hymchwiliad ac yn penderfynu a ddylid trosglwyddo'r pryderon mewn perthynas â gwaith y nyrs neu'r fydwaig er mwyn i banel eu hystyried mewn gwrandawiad. Mae hwn yn benderfyniad 'achos i'w ateb'. Yn 2014/15 aseswyd bod 1,032 o achosion yn rhai ag achos i'w ateb ac fe'u hanfonwyd i gael eu hystyried gan banel o'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd neu'r Pwyllgor Iechyd.
- 7 Bydd pwerau penderfynu newydd yr Archwilwyr Achosion yn eu galluogi i benderfynu ar fathau penodol o achosion heb fod angen iddynt anfon yr achos i'w ystyried eto gan banel. Mae angen y newid hwn ar frys oherwydd rydym yn credu y gellid delio'n fwy priodol ac yn gynharach â nifer sylweddol o achosion sydd ar hyn o bryd yn cael eu hanfon i gael eu hystyried gan banel mewn gwrandawiad. Bydd ein cynigion i roi pwerau penderfynu newydd i Archwilwyr Achosion yn ein

galluogi i gyflawni ein hamcan o warchod y cyhoedd a chadw ein proses ddyfarnu derfynol ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol a'r rhai hynny sy'n destun dadlau ynglŷn â'r hyn ddigwyddodd.

- 8 Mae'r pwerau newydd yma'n cael eu nodi'n fanylach isod.

Ymgymeriadau

- 9 Bydd Archwilwyr Achosion yn gallu awgrymu ymgymeriadau pan fo'r pryderon ynglŷn â gwaith nyrs neu fydwraig yn dangos eu bod yn risg i gleifion, ond y gellir rheoli neu ymdrin â'r risgiau yn ddiogel pan fo gwaharddiadau priodol ar waith. Bydd ymgymeriadau yn gytundeb rhyngom ni a nyrs neu fydwraig y byddant yn cydymffurfio â mesurau neu waharddiadau penodol, megis ailhyfforddi neu weithio o dan oruchwyliaeth, er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u gwaith. Efallai y bydd ymgymeriadau yn briodol mewn achosion pan fo'r pryderon yn cynnwys diffygion rheolaidd mewn meysydd penodol o'u gwaith, neu amodau iechyd sy'n ddigon difrifol i effeithio ar allu nyrs neu fydwraig i ddarparu gofal diogel.
- 10 Bydd ymgymeriadau ond yn cael eu hargymell ar ôl i Archwilwyr Achosion ganfod achos i'w ateb, a pham fyddant yn fodlon y gellir arenwi ymgymeriadau fydd yn delio â risgiau'r achos yn gyfan gwbl. Ni fydd ymgymeriadau yn cael eu hargymell pan fo'r pryderon mor ddifrifol fel bod yna debygolrwydd real y gallai panel roi gorchymyn diarddel. Bydd y math yma o achosion yn cael eu hatgyfeirio i banel eu hystyried.
- 11 O dan ein cynigion, nod yr ymgymeriadau fydd galluogi nyrsys a bydwragedd i ddychwelyd i weithio heb rwystrau. Bydd hyn yn cael ei wireddu drwy i'r nyrs neu fydwraig gwblhau camau penodedig, o fewn amserlenni penodedig, er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau i gleifion sy'n gysylltiedig â hwy. Byddwn yn monitro cydymffurfiaeth â'r ymgymeriadau (fel y nodir isod) er mwyn galluogi Archwilwyr Achosion i asesu'r wybodaeth a phenderfynu a ddylai'r ymgymeriadau barhau, a oes angen eu newid, neu a ddylid terfynu'r ymgymeriadau.

Cytuno ag ymgymeriadau

- 12 Bydd Archwilwyr Achosion ond yn argymell ymgymeriadau ar ôl iddynt weld ymateb nyrs neu fydwraig i'n hymchwiliad. Bydd ymgymeriadau ond yn addas pan fo'r nyrs neu'r fydwraig yn derbyn bod y digwyddiadau sy'n achosi pryder wedi digwydd a'u bod yn cydnabod bod angen rheoli meysydd penodol o'u gwaith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.
- 13 Pan fo ymgymeriadau yn cael eu hargymell, byddwn yn ysgrifennu at y nyrs neu'r fydwraig yn eu gwahodd i gytuno i gydymffurfio â'r ymgymeriadau o fewn 28

diwrnod. Byddwn yn ymestyn y cyfnod hwn os bydd angen mwy o amser i ddelio ag unrhyw faterion yn ymwneud ag ymarferoldeb yr ymgymeriadau a gynigir.

- 14 Os na fydd y nyrs neu'r fydwraig yn cadarnhau eu bod yn barod i gytuno â'r ymgymeriadau o fewn y cyfnod penodedig, bydd y pryderon yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer gwrandawriad.

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'n hymagwedd ynglŷn â phryd y dylai Archwilwyr Achosion argymhell ymgymeriadau?

Monitro cydymffurfio ag ymgymeriadau

- 15 Pan fo nyrs neu fydwraig yn cytuno i gydymffurfio ag ymgymeriadau, bydd Archwilwyr Achosion yn rhoi eu hystyriaethau cychwynnol ynglŷn â'r achos i'r neilltu. Yna bydd tîm adolygu penodedig yn monitro cynnydd y nyrs neu fydwraig o ran cwblhau'r camau a nodir yn yr ymgymeriadau.
- 16 Yn seiliedig ar wybodaeth gan y tîm adolygu, byddwn yn atgyfeirio achosion at Archwilwyr Achosion pan fo'n ymddangos bod angen iddynt efallai benderfynu diddymu'r ymgymeriadau, cynnig newidiadau, neu atgyfeirio'r achos ar gyfer gwrandawriad os methwyd â gweithredu'r ymgymeriadau.

Diddymu ymgymeriadau pan fo pryderon wedi eu datrys

- 17 Pan fo Archwilwyr Achosion yn fodlon bod y dystiolaeth o gydymffurfio ag ymgymeriadau yn dangos nad yw nyrs neu fydwraig yn risg i gleifion bellach, byddant yn gorchymyn diddymu'r ymgymeriadau a bydd yr achos yn cael ei gau.

Newid ymgymeriadau

- 18 Wrth adolygu cynnydd nyrs neu fydwraig o ran cydymffurfio ag ymgymeriadau, gall Archwilwyr Achosion benderfynu y dylid newid yr ymgymeriadau, a byddant yn gwahodd y nyrs neu'r fydwraig i gydymffurfio ag ymgymeriadau gwahanol. Gallai hynny ddigwydd pan fo'n ymddangos nad yw'r ymgymeriadau yn ymarferol, ond y gellir pennu ymgymeriadau eraill er mwyn rheoli'r risg yn yr achos.
- 19 Os na fydd y nyrs neu'r fydwraig yn cytuno i gydymffurfio â'r ymgymeriadau gwahanol, bydd y Cofrestrydd yn adolygu'r achos a bydd yn ystyried a yw'r ymgymeriadau yn parhau i fod yn ffordd briodol o ddelio â'r achos. Fel rhan o'r adolygiad hwn, bydd gan y nyrs neu'r fydwraig gyfle i ddweud wrth y Cofrestrydd pam na fu iddynt gytuno â'r ymgymeriadau gwahanol.
- 20 Bydd y Cofrestrydd yn gallu gwneud unrhyw benderfyniad oedd ar gael yn wreiddiol i'r Archwilwyr Achosion pan fu iddynt ystyried yr achos ar y cychwyn.

Gallai hynny gynnwys anfon yr achos i'w ystyried gan banel, neu argymell cytuno ar ymgymeriadau addas eraill gyda'r nyrs neu'r fydwraig, neu gadarnhau'r ymgymeriadau gwreiddiol. Wrth wneud y penderfyniad hwn, bydd y Cofrestrydd yn gallu ystyried unrhyw bwyntiau a wneir gan y nyrs neu'r fydwraig ynglŷn â pham nad oedd yr ymgymeriadau gwahanol yn addas.

Methu â gweithredu ymgymeriadau

- 21 Os byddwn yn derbyn mwy o wybodaeth sy'n dangos nad yw nyrs neu fydwraig wedi cydymffurfio ag ymgymeriadau, bydd Archwilwyr Achosion yn asesu'r wybodaeth hon ac yn ystyried natur y methiant. Yna bydd Archwilwyr Achosion yn ystyried a ddylai'r ymgymeriadau gwreiddiol aros, neu argymell newid yr ymgymeriadau. Rydym yn credu bod hon yn ffordd briodol o ddelio â mân newidiadau yng ngwaith y nyrs neu'r fydwraig, megis newidiadau i reoli llinell neu'r ward maent yn gweithio ynddi. Pan fo Archwilwyr Achosion yn penderfynu y bu achos difrifol o dorri ymgymeriadau, neu fethu cydymffurfio'n barhaus ag ymgymeriadau, bydd ganddynt y pŵer i gyfeirio'r cyhuddiad gwreiddiol a arweiniodd at gytuno ar ymgymeriadau am wrandawriad.

Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno y dylai Archwilwyr Achosion allu trosglwyddo'r cyhuddiad gwreiddiol am wrandawriad pan fo nyrs neu fydwraig wedi methu â chydymffurfio ag ymgymeriadau?

Cyhoeddi ymgymeriadau

- 22 Bydd y newidiadau arfaethedig i'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi penderfyniadau gan Archwilwyr Achosion i gytuno ar ymgymeriadau gyda nyrs neu fydwraig. Pan gytunir ar ymgymeriadau, bydd manylion nyrs neu fydwraig ar ein cofrestr yn cael eu newid i ddangos eu bod yn destun ymgymeriadau. Bydd manylion yr ymgymeriadau yn cael eu cyhoeddi, ynghyd â chrynodeb byr o'r digwyddiadau a arweiniodd at gytuno ar yr ymgymeriadau. O ganlyniad i natur gyfrinachol ymgymeriadau sy'n gysylltiedig ag iechyd, dim ond y ffaith y cytunwyd ar yr ymgymeriadau ac nid cynnwys yr ymgymeriadau fydd yn cael eu cyhoeddi o dan yr amgylchiadau yma.

Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno â'n hymagwedd tuag at gyhoeddi ymgymeriadau?

Rhybuddion

- 23 Mewn achosion pan nad yw nyrs neu fydwraig yn achosi risg bresennol i gleifion ac nad yw hen bryderon yn golygu nad oes angen sancsiynau gwahardd, rydym yn cynnig y byddai'n briodol datgan rhybuddion i'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth a'r cyhoedd bod ymddygiad yn y gorffennol wedi bod yn achos difrifol o dorri safonau proffesiynol a'r Cod. O dan y model presennol, nid oes gan Archwilwyr Achosion ddim dewis ond cyfeirio achosion o'r fath i'w hystyried gan y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd oherwydd nad oes ffordd ar hyn o bryd o

nodi eu pryderon yn gyhoeddus. Nid ydym yn rhagweld y bydd rhybuddion yn cael eu cyhoeddi pan fo'r pryderon ond yn gysylltiedig ag iechyd y nyrs neu'r fydwraig.

Ymgysylltu gan nyrsys a bydwragedd

- 24 Bydd Archwilwyr Achosion ond yn ystyried cyhoeddi rhybudd ar ôl iddynt adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein hymchwiliad, ac ar ôl adolygu unrhyw ymateb y mae'r nyrs neu'r fydwraig wedi dewis ei anfon, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth neu ddatganiadau ategol sy'n dangos mewnwelediad a datrysiad. Bydd rhybuddion ond yn cael eu cyhoeddi pan fo'r nyrs neu'r fydwraig yn derbyn y digwyddiadau sy'n achosi pryder i ni.
- 25 Nid ydym yn cynnig y byddai gan nyrs neu fydwraig gyfle i 'dderbyn' y rhybudd yn ffurfiol. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r nyrs neu'r fydwraig dderbyn y pryder yn bendant, a byddai'n rhaid datrys y pryder cyn cyhoeddi rhybudd.
- 26 O dan ein cynigion, bydd gan nyrsys a bydwragedd gyfle i roi sylwadau ar y cyhuddiad cyn i Archwilwyr Achosion ystyried yr achos yn unol â'n prosesau presennol yn dilyn ein hymchwiliad. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i nyrsys a bydwragedd roi sylwadau ar p'un a yw rhybudd yn ganlyniad priodol neu beidio.

Cwestiwn 4 – Y ydych yn cytuno gyda'n cynigion y gallai rhybuddion gael eu cyhoeddi pan fo pryderon o'r gorffennol yn ddifrifol, ond bod y nyrs neu'r fydwraig wedi dangos datrysiad llawn ac nad yw'n achosi risg bresennol i gleifion?

Cyhoeddi rhybuddion

- 27 Bydd y newidiadau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi penderfyniadau gan Archwilwyr Achosion i roi rhybudd. Rydym yn cynnig cyhoeddi'r ffaith bod Archwilwyr Achosion wedi rhoi rhybudd am gyfnod o 12 mis ar gofrestrriad y nyrs neu'r fydwraig. Bydd y cofnod hwn yn cynnwys crynodeb byr o'r ffeithiau y mae'r nyrs neu'r fydwraig wedi eu derbyn. Rydym yn ystyried bod y cyfnod cyhoeddi hwn yn briodol a'i fod yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng rhybuddion a gorchmynion rhybuddio, a ellir eu rhoi gan banel mewn gwrandawriad am gyfnod o rhwng un a phum mlynedd.

Cwestiwn 5 – A ydych yn cytuno â'n hymagwedd tuag at gyhoeddi cynnwys rhybuddion?

Cyngor

- 28 Os bydd Archwilwyr Achosion yn penderfynu nad oes achos i'w ateb, gallant benderfynu rhoi cyngor ysgrifenedig i'r nyrs neu'r fydwraig wrth gloi'r achos. Bydd y cyngor yn atgoffa nyrsys a bydwragedd i fyfyrion ar eu hymrwymadau proffesiynol a rhannau o'r Cod sy'n berthnasol i'r pryderon yr ymchwiliwyd iddynt.
- 29 Gall cyngor fod yn addas ar gyfer pryderon ynglŷn â mân dorri safonau proffesiynol o dan y Cod. Fel yn achos rhybuddion, ni fydd cyngor yn cael ei roi pan na fo'r nyrs neu'r fydwraig yn derbyn y digwyddiad(au) sy'n achosi pryder i ni.

Mae'n annhebygol y byddai cyngor yn cael ei roi mewn achosion fyddai ond yn cynnwys pryderon am iechyd nyrs neu fydwraig, neu ruglder yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

- 30 Bydd cyngor yn cael ei roi yn breifat i'r nyrs neu'r fydwraig, ar wahân i benderfyniad yr Archwilwyr Achosion, fydd hefyd yn breifat. Ni fydd cynnwys y cyngor yn cael ei gyhoeddi ac ni fydd yn cael ei ddatgelu i atgyfeirwyr. Fodd bynnag, byddwn yn hysbysu'r atgyfeirydd o'r ffaith bod yr achos wedi ei gloi drwy roi cyngor.
- 31 Ar hyn o bryd, gall Archwilwyr Achosion ystyried penderfyniadau dim achos i'w ateb blaenorol wrth ystyried a oes achos i'w ateb neu beidio mewn perthynas â phryder newydd os bydd hynny o fewn cyfnod o dair blynedd ers y penderfyniad dim achos i'w ateb gwreiddiol. Rydym yn cynnig delio ag achosion gaiff eu cloi drwy roi cyngor, neu rybudd, yn yr un modd. Mae hynny'n golygu na all Archwilwyr Achosion ystyried penderfyniadau blaenorol i roi rhybuddion, neu gyngor, ar ôl cyfnod o dair blynedd yn dilyn y penderfyniad gwreiddiol.

Cwestiwn 6 – A ydych yn cytuno â'n cynigion ynglŷn â phryd gaiff Archwilwyr Achosion roi cyngor?

Adolygu penderfyniadau Archwilwyr Achosion

- 32 Pan fu i ni gyflwyno'r Archwilwyr Achosion ym mis Mawrth 2015, bu i ni hefyd gyflwyno pŵer i'r Cofrestrydd adolygu penderfyniadau dim achos i'w ateb. Mae'r Cofrestrydd yn cynnal adolygiad pan fo'r dystiolaeth yn awgrymu bod y penderfyniad gwreiddiol yn sylweddol ddiffygiol, neu pan fo gwybodaeth newydd ar gael allai fod wedi arwain at benderfyniad gwahanol, ac y byddai adolygiad er lles y cyhoedd.
- 33 O dan y newidiadau arfaethedig yr ymgynghorwyd arnynt gan yr Adran Iechyd, bydd penderfyniadau canlynol Archwilwyr Achosion yn ddarostyngedig i bŵer adolygu:
- 33.1 argymhell y dylid cytuno ar ymgymeriadau
 - 33.2 penderfynu na ddylai ymgymeriadau fod yn gymwys bellach
 - 33.3 rhoi cyngor i nyrs neu fydwraig fel rhan o benderfyniad dim achos i'w ateb
 - 33.4 rhoi rhybudd fel rhan o benderfyniad dim achos i'w ateb
- 34 O dan ein cynigion, bydd penderfyniad i roi cyngor neu rybudd yn benderfyniad y gellir ei adolygu os ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod y penderfyniad yn sylweddol ddiffygiol, neu pan fo gwybodaeth newydd ar gael allai fod wedi arwain at benderfyniad gwahanol, a bod adolygiad yn angenrheidiol er mwyn atal anghyfiawnder i'r nyrs neu'r fydwraig, neu fod hynny er lles y cyhoedd.
- 35 Bydd y terfyn amser o 12 mis ar gyfer adolygu penderfyniadau Archwilwyr Achosion (oni bai fod yna amgylchiadau eithriadol) yn parhau.

- 36 Pan fo'r Cofrestrydd yn ystyried bod yna dystiolaeth bod penderfyniad Archwilwyr Achosion i roi rhybudd yn sylweddol ddiffygiol, neu fod gwybodaeth newydd ar gael nawr allai fod wedi arwain at benderfyniad gwahanol, bydd y rhybudd a gyhoeddwyd fel y mae'n ymddangos yn y cofnod ar gofrestr y nyrs neu'r fydwraig yn cael ei addasu er mwyn dangos bod y penderfyniad i roi rhybudd yn cael ei adolygu.
- 37 Ar hyn o bryd, gall y Cofrestrydd adolygu penderfyniadau sy'n datgan nad oes gan nyrs neu fydwraig achos i'w ateb os ydynt yn sylweddol ddiffygiol, neu fod gwybodaeth newydd ar gael allai fod wedi arwain at benderfyniad gwahanol, a bod adolygiad er lles y cyhoedd.

Cwestiwn 7 – A ydych yn cytuno y dylai'r Cofrestrydd hefyd allu adolygu penderfyniadau i roi cyngor, rhybuddion, argymell neu ddiddymu ymgymeriadau, gan ddefnyddio'r egwyddorion hyn?

Cwestiwn 8 – Pan fo penderfyniad Archwiliwr Achosion yn sylweddol ddiffygiol, neu fod gwybodaeth newydd ar gael allai newid y penderfyniad, a ydych yn cytuno, yn ogystal â bod penderfyniad newydd er lles y cyhoedd, y dylai 'atal anghyfiawnder i nyrs neu fydwraig' fod yn ffactor newydd wrth ystyried penderfyniad newydd?

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- 38 Fel corff cyhoeddus, mae gan yr NMC ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd, cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir a rhai nad ydynt.
- 39 Y nodweddion gwarchodedig yw:
- 39.1 Oedran
 - 39.2 Anabledd
 - 39.3 Ailbennu rhywedd
 - 39.4 Priodas a phartneriaeth sifil
 - 39.5 Hil
 - 39.6 Crefydd neu gred
 - 39.7 Rhyw
 - 39.8 Cyfeiriadedd rhywiol
 - 39.9 Beichiogrwydd a mamolaeth

Cwestiwn 9 – A fydd unrhyw un o'r cynigion hyn yn effeithio'n benodol ar bobl sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig yma (yn cynnwys nyrsys, bydwagedd, cleifion a'r cyhoedd)? Os bydd, a fyddai hynny'n effaith bositif neu negyddol?

Cwestiwn 10 – Sut allwn ddiwygio'r cynigion er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd a meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau?

Darpariaethau pontio

- 40 Rydym yn awyddus i sicrhau y gallwn roi'r newidiadau i'n Rheolau Addasrwydd i Weithio ar waith cyn gynted â phosibl pan fyddant yn dod i rym. Er mwyn galluogi hynny, rydym yn cynnig y dylai'r rheolau newydd fod yn gymwys i'r holl achosion presennol o'r dyddiad y daw'r rheolau i rym, oni bai fod gwrandawriad wedi cychwyn a bod y cyhuddiadau wedi cael eu darllen. Bydd hynny'n golygu y bydd achosion nad ydynt wedi cael eu hystyried gan Archwilwyr Achosion yn cael eu hystyried o dan y rheolau newydd.
- 41 Bydd gwrandawiadau pan fo'r cyhuddiadau wedi cael eu darllen, ond na chwblhawyd ar y dyddiad y daw'r rheolau newydd i rym, yn parhau i gael eu hystyried o dan y rheolau sy'n bodoli. Yn y sefyllfa hon, bydd y rheolau sy'n bodoli yn gymwys hyd at y pwynt pan fo'r panel yn gwneud ei benderfyniad ynglŷn â sancsiynu. Bydd unrhyw ystyriaeth arall ynglŷn â'r achos (mewn adolygiad o unrhyw orchymyn sylweddol, er enghraifft) yn cael ei ystyried o dan y rheolau newydd.
- 42 Byddai achosion sydd wedi eu hatgyfeirio i'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd neu'r Pwyllgor Iechyd cyn y dyddiad dod i rym yn cael eu trin fel petaent wedi cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Addasrwydd i Weithio. Bydd gwrandawiadau a ohiriwyd, pan na fo'r cyhuddiad wedi ei ddarllen, cyn y dyddiad dod i rym, yn mynd rhagddynt gerbron y Pwyllgor Addasrwydd i Weithio, o dan y rheolau newydd.

Cwestiwn 11 – A ydych yn cytuno â'n darpariaethau pontio arfaethedig?

Rheolau Drafft

Cwestiwn 12 – A oes gennych unrhyw sylwadau ar y Rheolau Drafft?